# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 4 Mawrth 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Cydlynydd Polisi'r Llywodraeth yn y Gogledd

**C12 Janet Ryder:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ei rôl fel cydlynydd polisi'r Llywodraeth yn y Gogledd? (OAQ22775)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae fy nyletswyddau fel cydlynydd polisi ar gyfer y Gogledd yn cynnwys sicrhau bod gan y Gogledd gynrychiolaeth briodol ym mhob penderfyniad polisi a wneir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gwnaf bob ymdrech i ymweld â'r Gogledd yn rheolaidd, i ddilyn materion o bryder ac i hyrwyddo cyfleoedd i fuddsoddi. Yr wyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd, pan gaf wahoddiad.

### Effaith Polisïau Addysg ar Bobl Ifanc

**C13 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar effaith polisïau addysg ei Lywodraeth ar bobl ifanc Cymru? (OAQ22772)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r effeithiau'n bositif. Mae pobl ifanc yn profi'r buddiannau o gael mwy o athrawon, gwell cymharebau disgybl/athro, lleihad ym maint dosbarthiadau, a safonau a chyrhaeddiad sy'n gwella. Mae deuparth y pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yn parhau gyda'u haddysg ac mae grant dysgu newydd y Cynulliad yn cael gwared ar y rhwystrau ariannol a arferai gadw pobl ifanc rhag mynd yn eu blaenau i addysg bellach ac uwch.

### Cyfle Cyfartal

**C14 Dai Lloyd:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sicrhau cyfle cyfartal i bawb yng Nghymru? (OAQ22779)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym ar hyn o bryd yn ymgymryd â chyfres o fentrau yng Nghymru, ar draws yr ystod llawn o feysydd cydraddoldeb. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys: seminarau ymgynghori cyhoeddus ar gorff cydraddoldeb unigol, cyfarfodydd bord gron sector cyhoeddus Cymru ar gydraddoldeb, ymgyrch cyflog cyfartal, mentrau allgyrch i wella ein gwaith gyda grwpiau a chymunedau dan anfantais, Cyngor Rhyng-grefyddol Cymru, seminarau camwahaniaethu ar sail anabledd a gwaith pellach, gan gynnwys ymgynghori cyhoeddus ar gynllun cydraddoldeb hiliol y Cynulliad.

### Cymunedau Cynaliadwy

**C15 Rhodri Glyn Thomas:** Pa asesiad a wnaed i fesur effeithiolrwydd ei Lywodraeth o ran creu cymunedau cynaliadwy? (OAQ22771)

**Y Prif Weinidog:** Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu ymchwil i bwyso a mesur effeithiolrwydd a gwerth am arian Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, sef ei rhaglen hirdymor ar gyfer adfywio cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Byddwn hefyd yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar gynhwysiant cymdeithasol, cyn bo hir.